| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Is-Bwyllgor Iaith** |
| **DYDDIAD** | |
| **TEITL** | **Adroddiad Llwyddiant Prosiect Pencampwyr Iaith Canolfannau Hamdden Gwynedd** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD** | **Cyflwyno diweddariad ac adroddiad terfynol ar y cynllun Pencampwyr Iaith Canolfannau Hamdden Gwynedd** |
| **AWDUR** | **Gwenno Williams<br>Uwch Reolwr Gweithredol** |
| **ARGYMHELLIAD** | |

**Cefndir**

Yn 2011, derbyniwyd cyllideb gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg, fel rhan o'r cynllun Gweithleoedd Dwyieithog i hyfforddi a datblygu Pencampwyr Iaith yng Nghanolfannau Hamdden y Fro Gymraeg. Fel rhan o'r cynllun darparwyd hyfforddiant i 13 o Bencampwyr Iaith Canolfannau Hamdden Gwynedd, golygai hyn bod ganddom Pencampwyr Iaith yn ein Canolfannau i gyd yng Ngwynedd.

**Swyddogaeth Graidd Y Pencampwyr Iaith**

Mae llawer o swyddogaethau craidd i Bencampwr Iaith, a dyma rhai ohonynt.

- Cyfleu gwybodaeth i staff am ofynion iaith, a materion yn ymwneud a'r Gymraeg
  Arwain trwy esiampl;

- Cefnogi dysgwyr a siaradwyr Cymraeg dihyder i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.

**Manteision Swyddogaeth Pencampwr Iaith I'r Gweithlu**

- Cynyddu ymwybyddiaeth iaith ymysg staff
- Meithrin arferion ieithyddol da yn y gweithle
- Cynyddu hyder staff i ddefnyddio'r Gymraeg
- Hybu datblygiad proffesiynol y staff a chynhorthwy'r sefydliad, drwy sicrhau cwrteisi ieithyddol a gofal cwsmer.

**Manteision Swyddogaeth Pencampwyr Iaith I'r Cyngor**

- Gwella'r gwasanaeth i'r cwsmer
- Cryfhau'r gwasanaeth i gwrdd â dyheadau'r cwsmer
- Cefnogi'r Cynllun Addysg Gymraeg

**Camau Mae'r Uned Weithredol Wedi ei Gymryd**

Mae'r Cynllun Iaith yn berthnasol i bawb, ac mae ei weithredu'n effeithiol yn gyfrifoldeb i bob aelod o staff ein Canolfannau Hamdden. Yn sgil hyn mae disgwyl i bob Pencampwr Iaith arwain ei dim drwy esiampl, cefnogi a mentora'r dysgwyr a siaradwyr Cymraeg. Mae hyn yn digwydd yn ddyddiol yn ein Canolfannau Hamdden drwy ateb y ffôn, dechrau pob sgwrs, siarad ymysg staff, ysgrifennu negeseuon ac e-byst yn y Gymraeg. Yn ogystal mae pob cyfarfod staff bellach gydag agenda a chofnodion Cymraeg. Rôl y Pencampwyr Iaith yw sgwrsio, helpu, bod yn gyfaill a mentor i annog y dysgwyr/siaradwyr dihyder i siarad Cymraeg.

Wrth ddarparu gwersi nofio, gymnasteg, tennis a.y.b. a gwersi ar gyfer ein hysgolion yn y Gymraeg rydym yn atgyfnerthu'r Cynllun Addysg Gymraeg ac yn sicrhau cyfleoedd i blant a phobl ifanc cael dysgu'r gwersi trwy iaith ein hysgolion.

Fel rhan o Gynllun Busnes a gwaith Tîm Technegol yr Uned, mae trefniant mewn lle i gynnal arolwg/awdit o sgiliau Iaith staff a defnydd o'r Iaith Gymraeg yn y Canolfannau. Bydd hyn yn digwydd o leiaf dwywaith y flwyddyn gan ein Tîm o archwilwyr technegol yr Uned.

Rydym fel Gwasanaeth yn ymfalchïo fod y cynllun yma wedi gwella darpariaeth, ac mi fydd gwelliant parhaus, defnydd o'r Iaith Gymraeg trwy ein Canolfannau Hamdden er budd ein holl gwsmeriaid sydd yn derbyn gwasanaeth a gweithgareddau yw hybu i "Fyw'n Iach."